caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales



# Crynodeb: Tipio Anghyfreithlon Domestig yng Nghymru – Nodi Rhwystrau, Creu Atebion

Cadwch Gymru'n Daclus 2022


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government


cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Cyflwyniad

Mae lefelau tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn dal yn annerbyniol o uchel, gan niweidio'r cymunedau sy'n ei ddioddef ac yn costio miliynau i gynghorau ar draws Cymru ei symud. Mae effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pellgyrhaeddol i dipio anghyfreithlon ac mae'n broblem barhaus ar draws ardaloedd pob cyngor yng Nghymru, boed yn drefol neu'n wledig. Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi treulio amser yn ymchwilio i'r mater hwn o safbwynt ymddygiadol ac mae'n gadarnhaol am ymgysylltu cynghorau i roi atebion ar waith a dileu rhwystrau trwy ymagwedd fwy holistaidd a chyson. Ymgorfforir yr ymagwedd hon yn rhaglen Caru Cymru, mewn partneriaeth â phob cyngor yng Nghymru a Phrifysgol Caerdydd, sydd yn cynnig ysbrydoliaeth gadarnhaol i bobl a chymunedau Cymru werthfawrogi ac ymgysylltu â'r gwaith o ofalu am eu hamgylchedd lleol. Mae'r ddogfen gryno hon yn adlewyrchiad o'n papur ymchwil ehangach sydd yn canolbwyntio ar fater tipio anghyfreithlon gan aelwydydd (gwastraff domestig a nwyddau ac offer swmpus yn bennaf). Ei nod yw defnyddio arfer gorau a chyflwyno atebion ffres gyda safbwynt ymddygiadol sydd heb ei ymchwilio na'i werthfawrogi ddigon ar y mater. Mae'r ddogfen hon yn amserol gan fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y 'Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru' cyntaf, ac mae'n agos gysylltiedig ag uchelgais economi gylchol y 'Strategaeth Mwy nag Ailgylchu' (2021) a'r angen i leihau gwastraff yn ei ffynhonnell.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi'r crynodeb o ymatebion i'r Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon arfaethedig ar gyfer Cymru ac mae llawer o'r materion a nodir yma yn adlewyrchu sylwadau'r ymgynghoriad. Mae ein hymagwedd yn cyd-fynd hefyd â chyhoeddiad diweddar gan Keep Britain Tidy ar 'Insights to tackle householder fly-tipping' sy'n ystyried gwerthoedd, ysgogiadau a rhwystrau aelwydydd o ran gwaredu gwastraff yn iawn a pholisïau gwastraff cysylltiedig.

Er bod llawer o awgrymiadau yma'n canolbwyntio ar gynghorau, ni ddylid ystyried y rhain yn argymhellion ynysig, ond yn hytrach yn ddechrau ymagwedd strategol a gwirioneddol ataliol fydd angen gweithredu tymor byr ac ymrwymiad hirdymor gan bob lefel o lywodraeth, o weinidogion i randdeiliaid cymunedau dinesig.

Mae sicrhau bod pob digwyddiad o dipio anghyfreithlon yn cael ei gofnodi'n gyson yn heriol. Fodd bynnag, mae'n bosibl gweld tueddiadau a ffynonellau cyffredin yn y data cenedlaethol. Mae cymeriad tipio anghyfreithlon wedi newid dros y blynyddoedd diweddar, ac rydym bellach yn gweld mwy o wastraff domestig a llai o wastraff masnachol a diwydiannol yn cael eu gwaredu'n anghywir. Mae'r wybodaeth a geir ynghylch yr hyn sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn ffynhonell ddata werthfawr wrth lywio'r ffordd i fynd i'r afael â'r mater a pha rwystrau allai fodoli. Bydd natur benodol y ddogfen drafod hon yn defnyddio ymagwedd holistaidd tuag at y broblem o dipio anghyfreithlon, gan gyfleu'r ffordd y mae rhwystrau strwythurol, economaidd a chymdeithasol yn atal cynnydd o ran ei leihau. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ymagwedd ymddygiadol tuag at ddeall y broblem, am fod ysgogiadau, ymddygiad a gwerthoedd unigol yn gallu bod yn hanfodol yn datblygu gweithredu ataliol. Mae'r atebion a awgrymir wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio dull COM-B[1] o

[1] Social Change UK, (2019), Canllaw i Fodel Newid Ymddygiad COM-B, Ar gael: https://social-change.co.uk/files/02.09.19_COM-B_and_changing_behaviour_.pdf "Mae model COM-B yn cynnig bod tair cydran i unrhyw ymddygiad (B): Galluogrwydd (C), Cyfle (O) ac Ysgogiad (M). Er mwyn cyflawni ymddygiad penodol, mae'n rhaid i rywun deimlo eu bod yn gallu gwneud hynny yn seicolegol ac yn gorfforol (C), yn meddu ar y cyfle cymdeithasol a chorfforol ar gyfer yr ymddygiad (O), ac eisiau neu angen cyflawni'r ymddygiad yn fwy nag ymddygiad cystadleuol arall (M). Wrth i bob un o'r cydrannau hyn

newid ymddygiad sydd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ystyried safbwynt, rhwystrau ac atebion 'defnyddwyr'.

Mae'r papur yn cydnabod bod ymddygiad gwastraff yn gymhleth, ac nid yw'n fater o nodi un ateb fydd yn datrys y broblem. Fodd bynnag, trwy ddiwygio'r ffordd yr ydym yn ystyried y mater o dipio anghyfreithlon, gallwn ddechrau ystyried ymagwedd fwy effeithiol a gwirioneddol ataliol ar gyfer ymgysylltu cenedlaethol, lleol a chymunedol. Mae hyn yn hanfodol oherwydd, yn wahanol i ymddygiad taflu sbwriel, mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos bod y rhwystrau i atal tipio anghyfreithlon yn aml yn strwythurol o ran natur ac felly y ffordd orau o fynd i'r afael â nhw yw ar lefel polisi. Mae Cymru yn arwain y byd o ran ailgylchu gwastraff cartref, ac rydym yn cydnabod bod sawl enghraifft o arfer da gan awdurdodau lleol sydd yn gweithio gyda Taclo Tipio Cymru wrth iddynt geisio lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu gyda chyllidebau ac adnoddau cyfyngedig.

Fodd bynnag, ceir tystiolaeth y gall rhai polisïau gwastraff, ar y cyd, danseilio nod newid ymddygiad sydd yn cynyddu ailgylchu ac ailddefnyddio. Wrth i Gymru drawsnewid tuag at economi fwy cylchol, mae hybu ailddefnyddio a thrwsio a gweithgareddau ataliol eraill, ymgysylltu'r cyhoedd a deall gwastraff yn elfennau hanfodol ar gyfer llwyddiant. Mae newid ymddygiad cadarnhaol yn digwydd pan fydd yr ymddygiad dymunol yn cael ei wneud yn hawdd, yn gyfleus ac yn fforddiadwy – mae hyn wedi cael ei arddangos wrth gasglu eitemau ailgylchu cartref yn effeithiol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn y dymuniad i gyrraedd targedau neu arbed adnoddau, gall effaith gronnol mesurau fel codi tâl am symud gwastraff swmpus, rheolau caeth ynghylch casgliadau a mynediad i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC), a diffyg cymorth ar gyfer y rheiny sydd ar incwm is, trwy amryfusedd, arwain at gynnydd mewn gwaredu gwastraff yn anghywir, fel tipio anghyfreithlon. Mae angen felly ystyried pob polisi cysylltiedig yn ymwneud â gwastraff ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau bod llinyn cyson a chyffredin sydd yn hybu ymddygiad gwastraff cadarnhaol.

Yn hytrach na gweld tipio anghyfreithlon fel problem ynysig, argymhellir ei bod yn cael ei hystyried trwy lens ehangach lleihau ac atal gwastraff. Nid yw'n cael ei awgrymu y bydd gweithredu unrhyw un ateb sydd yn cael ei gynnig yma yn datrys achosion o dipio anghyfreithlon ar ei ben ei hun, ond rydym yn annog gwneuthurwyr penderfyniadau i ystyried y gyfres gyfan o ymagweddau a'r negeseuon (neu'r diffyg negeseuon) am rwyddineb, cyfleustra a fforddiadwyedd gwaredu gwastraff. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn wirioneddol, bydd angen i gynghorau fabwysiadu ymagwedd sydd yn fwy seiliedig ar systemau tuag at leihau gwastraff a hyrwyddo'r economi gylchol. Mae'n rhaid i hyn, fel isafswm, gynnwys timau gwastraff, tai, gorfodi, adfywio a datblygu economaidd, aelodau cynghorau a chyfathrebu i ystyried y gofynion angenrheidiol a chanlyniadau anfwriadol unrhyw bolisi'n ymwneud â gwastraff er mwyn datblygu ymagwedd sydd yn wirioneddol ataliol. Mae partneriaeth gyda grwpiau cymunedol priodol a sefydliadau'r trydydd sector, yn cynnwys cymdeithasau tai, yn rhan allweddol o'r ateb hefyd.

Nid eir i'r afael â materion penodol yn ymwneud â gwastraff gwyliau a'r cynnydd mewn 'gwersylla anghyfreithlon' yn fanwl yma ond maent wedi eu cynnwys mewn papur arall gan Cadwch Gymru'n Daclus ar faterion twristiaeth a rheoli gwastraff i gael ei gyhoeddi yn 2022.

Mae'r ymchwil yma wedi cael ei llywio gan astudiaethau wedi eu cyhoeddi mewn cyfnodolion, adroddiadau prosiect, sawl arolwg o ddeiliaid tai a chynghorau yn ogystal â data sydd ar gael ar achosion a chostau tipio anghyfreithlon, ac adolygiad o wefannau pob cyngor. Eir i'r afael â'r

ryngweithio, mae'n rhaid i ymyriadau dargedu un neu fwy o'r rhain er mwyn cyflawni a chynnal newid ymddygiad effeithiol."

materion a allai arwain at dipio anghyfreithlon domestig yn eu tro yn adran 1. Mae adran 2 yn awgrymu ymatebion i'r materion hyn wedi eu trefnu yn ôl math ac ymyrraeth.

Mae'r atebion hyn yn amrywiol, yn cynnwys mathau newydd o gyfathrebu, adolygiadau o bolisi a seilwaith gwastraff, hyfforddiant staff ac ymgysylltu strategol gydag aelodau o'r gymuned a'r sefydliadau sydd yn rhyngweithio â nhw. Cydnabyddir bod cynghorau'n gweithio gydag adnoddau cyfyngedig ac er y gallai rhai o'r atebion hyn ymddangos yn anymarferol, dadleuir y bydd gweithgaredd ataliol yn arbed llawer mwy yn yr hirdymor a bydd yn llawer mwy cost effeithiol na dibynnu ar orfodi adweithiol.

Ymagwedd Cadwch Gymru'n Daclus yw annog ailfeddwl gyda meddwl agored am y materion y tu ôl i dipio anghyfreithlon. Nid yw'r syniadau yn y tabl canlynol wedi eu bwriadu fel cynllun gweithredu rhagnodol ond dylid eu hystyried fel rhan o strategaeth integredig ac ni fydd un ateb yn datrys y mater ar ei ben ei hun. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys pethau yr ydym yn gwybod bod rhai cynghorau eisoes yn eu gwneud fel arfer da. Bydd rhai eitemau hefyd yn gofyn am fwy o drafodaeth ac i ymagweddau arloesol gael eu defnyddio.

Rydym yn gobeithio y gellir defnyddio hyn fel canllaw i gynghorau a gwneuthurwyr polisïau eraill adolygu polisïau ac arferion presennol er mwyn sefydlu amgylchedd sydd yn hyrwyddo ymddygiad gwastraff cyfrifol ac yn osgoi canlyniadau anfwriadol.






# Adran 1: Deall tipio anghyfreithlon domestig

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar dipio anghyfreithlon domestig. Yn gyffredinol, mae tipio anghyfreithlon domestig yn cynnwys eitemau bach a bagiau o wastraff cymysg ond eitemau trymach hefyd, yn cynnwys nwyddau gwyn a dodrefn. Defnyddir biniau cyhoeddus yn aml ar gyfer gwaredu gwastraff cartref gormodol.

Pan fydd tipio anghyfreithlon sydd yn deillio o'r cartref yn digwydd, mae hyn o ganlyniad i wastraff cartref ac ailgylchu gormodol neu pan fydd angen i ddeiliad y tŷ waredu eitemau nad oes eu hangen neu eu heisiau. Gan fod pob cyngor yn Nghymru yn casglu eitemau ailgylchu ar garreg y drws a safleoedd gwaredu gwastraff, mae'n amlwg, os yw deiliad tŷ yn methu defnyddio'r ddarpariaeth hon fel y'i bwriadwyd, bod gormod o wastraff, diffyg dealltwriaeth neu ysgogiad i waredu'n gywir, neu rwystr arall sydd yn strwythurol, yn economaidd, neu'n gymdeithasol / diwylliannol. Gall hyn fod yn rhwystr gwirioneddol neu ymddangosiadol.

## Rhwystrau strwythurol sy'n cyfrannu at dipio anghyfreithlon

Gan ganolbwyntio ar y system gyfan lle gallai deiliad tŷ gyflawni tipio anghyfreithlon, gellir gweld nad yw strwythurau presennol, efallai, yn galluogi pob deiliad i ddangos ymddygiad gwastraff cyfrifol ac osgoi tipio anghyfreithlon. Dylid ystyried effaith gyfunol y materion unigol hyn.

### Casgliadau gwastraff

Mae casgliadau gwastraff gweddilliol bellach yn digwydd yn llai aml ar draws Cymru yn unol â blaenoriaethu llwyddiannus casgliadau ailgylchu wythnosol. Mae hwn yn bolisi effeithiol i lawer o breswylwyr ond ceir rhai sefyllfaoedd lle mae hyn yn heriol i alluogrwydd a gallu i ymdrin â'r holl wastraff sydd yn cael ei greu.

Mae cynghorau'n gweithredu rheolau a lefelau hyblygrwydd amrywiol wrth fynd i'r afael â materion fel sbwriel ar ochr biniau, ymdrin â chasgliadau a gollwyd, darparu casgliadau cewynnau ac addysgu preswylwyr am yr ymddygiad gwastraff sydd yn ddisgwyliedig ganddynt.

Er nad yw tipio anghyfreithlon yn ymddygiad y dylid ei amddiffyn, gall fodd rhesymeg iddo o ran y deiliad unigol yng ngoleuni'r gostyngiad ymddangosiadol mewn gwasanaethau a'r diffyg dewisiadau amgen addas. Mae cyfraddau ailgylchu is yn gysylltiedig ag ardaloedd mwy difreintiedig lle gallai rhwystrau fodoli i opsiynau amgen (defnydd o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref - HWRC) yn bennaf.

Mae adolygiad gan Cadwch Gymru'n Daclus o wybodaeth sydd ar gael yn hawdd i breswylwyr am wastraff ac ailgylchu yn awgrymu nad yw hyn yn hawdd i'w ganfod na'i ddeall bob amser. Mae'r mater yn bodoli ar y cyd â lledaenu twyllwybodaeth bosibl ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Mynediad i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Mae'r rheolau sy'n berthnasol i HWRC (sydd bellach yn cael eu galw'n Ganolfannau Ailgylchu) yn amrywio ar draws Cymru a hyd yn oed mewn HWRC gwahanol yn yr un wlad. Mae toriadau i gyllidebau wedi arwain at oriau agor mwy cyfyngedig. Yn ogystal, roedd yn angenrheidiol oherwydd pandemig COVID-19 i gynghorau gyfyngu mynediad i HWRC ac yna caniatáu ymweliadau wedi eu harchebu ymlaen llaw yn unig. Mae rhai cynghorau'n parhau i fod ag amserau wedi eu harchebu ymlaen llaw yn unig a nifer gyfyngedig o ymweliadau. Mae rheolau gwahanol yn ymwneud â mathau o gerbydau a ganiateir ar y safle yn berthnasol a sut i gael caniatâd. Yn aml, ni fydd y preswylwyr yn ymwybodol o reolau penodol nes iddynt gyrraedd y safle. Yn ddaearyddol, gall rhwyddineb mynediad i safleoedd fod yn loteri, yn arbennig pan fydd y preswylwyr yn byw gerllaw ffin sirol heb ganiatâd i fynd i safle cyfagos yn yr awdurdod nesaf. Mae rheoliadau gwahanol hefyd yn berthnasol i'r math o wastraff a dderbynnir ar safle.

Gyda'i gilydd, gall y rheoliadau cymhleth hyn adael y preswylwyr gyda rhwystrau a rhwystredigaeth o ran ceisio gwaredu gwastraff neu eitemau y gellir eu hailgylchu yn gyfreithlon. Mae archwiliad bras o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cwynion a rhwstredigaethau. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn achosi mythau penodol a thwyllwybodaeth i ymddangos am "y tip" ac nid yw'n hawdd cael gwared ar y rhain pan mae rheolau'n newid yn rheolaidd, a rhwystrau dilys yn bodoli mewn rhai enghreifftiau.



## Casglu eitem swmpus

Er bod pob cyngor yn cynnig rhyw fath o wasanaeth casglu eitemau swmpus, mae rheoliadau a chodi tâl eto'n amrywio'n sylweddol ar draws Cymru. Yn aml, nid yw manylion y gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi'n eang. Ar sail gwybodaeth ar wefannau cynghorau, ymddengys nad oes unrhyw gyfraddau gostyngol bron, na chymorth i'r rheiny sydd yn methu fforddio'r tâl, sydd tua £50 fel arfer am hyd at 3 eitem. Yn aml, y rheiny sydd heb ddefnydd o gerbyd fydd angen y gwasanaeth hwn, felly'n fwy tebygol o fod ar incwm isel. Gall rheolau ynghylch sut a phryd i osod eitemau allan i gael eu casglu fod yn fwy anodd i'r rheiny â phroblemau iechyd neu ofod byw cyfyngedig (fel y rheiny sydd yn byw mewn tai a rennir, myfyrwyr a phobl ifanc yn aml). Os yw symud hen eitemau yn cael ei ddarparu gan fanwerthwyr, codir tâl am hyn fel arfer hefyd, y bydd y rheiny ar gyllidebau caeth, efallai, yn dewis peidio â'i dderbyn.

## Pwysau gwleidyddol a thargedau symud

Mae tipio anghyfreithlon yn ffynhonnell gyffredin o gŵynion i gynghorau. Mae perygl, trwy ymateb i hyn, y bydd ymagwedd adweithiol "galed" yn cael ei hannog pan fydd angen ymagwedd strategol i fynd i'r afael â'r achosion. Mae'n bwysig bod cynghorwyr yn gwbl ymwybodol o'r problemau, yn gallu ateb cwestiynau cyffredin a hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael i breswylwyr unigol a'r atebion strategol i leihau'r broblem.

Er clod iddynt, mae llawer o gynghorau'n llwyddo i symud eitemau sydd wedi eu tipio'n anghyfreithlon yn gyflym. Fodd bynnag, mae perygl y gall hyn atgyfnerthu'r amgyffrediad gan rai preswylwyr y bydd y cyngor yn symud unrhyw beth y byddant yn ei roi allan. Am y bydd cynghorau'n ei chael hi'n anodd adnabod cyflawnwyr, gall ymddangos fel y ffordd symlaf a rhataf o waredu i rai o'i chymharu â chostau a heriau'r dewisiadau amgen. Mae defnyddio tâp trosedd (neu ymyrraeth debyg) i nodi symud eitemau wedi eu tipio'n anghyfreithlon yn enghraifft o un opsiwn o ymagwedd strategol sydd yn amlygu bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol, yn ogystal â phenderfynoldeb y cyngor i ddelio ag ef.

## Gorfodi

Yn unol â'r pwyslais yn y ddogfen hon ar ymagwedd holistaidd tuag at gyflawni newid mewn ymddygiad sydd yn lleihau tipio anghyfreithlon, mae gorfodi ond yn debygol o leihau tipio anghyfreithlon domestig yn sylweddol pan fydd bygythiad clir a gweledol o gael eich dal. Nid yw'r defnydd presennol o ymchwilio, hysbysiadau cosb benodedig, ac erlyniadau a lefel amrywiol y gost a osodir gan lysoedd ynadon yn cyd-fynd ag atal cyflawnwyr. Mae lledaeniad daearyddol eang y lleoliadau lle gall tipio anghyfreithlon ddigwydd yn cyflwyno heriau mawr i gynghorau oni bai bod llawer mwy o adnoddau ar gael. Hyd nes bydd adolygiad systemig o orfodi ar gael ar gyfer troseddau amgylcheddol sydd yn mynd i'r afael â'r broses, yr ymagwedd, systemau a'r dechnoleg a ddefnyddir yn ogystal â gallu o ran adnoddau, bydd gorfodi'n parhau i fod yn fylchog.

## Storfeydd biniau cymunol a thai amlfeddiannaeth (HMO)

Mae dros 12% o bobl yng Nghymru'n byw mewn fflatiau / rhandai a thai amlfeddiannaeth. Fel arfer, maent yn rhannu storfeydd biniau a / neu finiau gwastraff ac ailgylchu. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddiffyg teimlad o "berchnogaeth" uniongyrchol dros y gwastraff sydd yn cael ei waredu. Mae'r ardaloedd biniau hyn fel arfer yn gyfyng ac yn anneniadol. Mae rhai landlordiaid yn treialu mwy o ddefnydd o finiau unigol ac mae'n bwysig monitro effaith newidiadau o'r fath. Mae gwella estheteg storfeydd biniau, yn arbennig trwy ddelweddau 'natur' wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn y maes hwn. Mae rôl landlordiaid preifat a threfniadau trwyddedu ar gyfer HMO yn arwyddocaol hefyd ar gyfer gwella trefniadau a gwybodaeth am denantiaid.

# Rhwystrau economaidd sydd yn cyfrannu at dipio anghyfreithlon

Os nad yw pobl yn gallu fforddio gwneud y peth iawn gyda'u gwastraff, mewn un ffordd neu'r llall, ni allant wneud yr hyn a ofynnir ganddynt. Mae hyn yn ymwneud â rhai o'r materion strwythurol sydd eisioes wedi eu nodi ond mae angen ei ystyried hefyd yng nghyd-destun y materion economaidd-gymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol ehangach sy'n ymwneud â llawer o'n cymunedau.

Mae'n debygol y bydd angen ymagwedd wahanol tuag at gyfathrebu, addysgu, a chefnogi'r cymunedau hyn sydd yn fwy anodd eu cyrraedd. Ymddengys nad yw'r effeithiau anghyfartal ar aelwydydd tlotach yn cael eu cydnabod rhyw lawer mewn perthynas â materion gwastraff, ailgylchu, ac ailddefnyddio.

## Anghydraddoldeb tai

Mae'r rheiny sydd yn byw mewn tai cymdeithasol a llety a rennir fel tai amlfeddiannaeth, yn fwy tebygol o fod â llai o ofod byw. Mewn llawer o achosion, nid yw dyluniad datblygiadau'n ystyried yr angen am storfeydd biniau a chynwysyddion ailgylchu digonol, sy'n ei wneud yn fwy anodd i'r cymunedau hyn reoli a gwahanu eu gwastraff yn gywir. Byddai rhoi mwy o gyfrifoldeb ar landlordiaid i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda thenantiaid yn helpu i gyflawni ymagwedd gyson.

## Codi tâl – casglu gwastraff swmpus

Mae taliadau gwastraff swmpus yn amrywio'n sylweddol rhwng pob awdurdod lleol yng Nghymru, ac yn aml nid yw'n cael ei ystyried yn fforddiadwy, yn gyfleus nac yn arbennig o hawdd i rai pobl. Mae ystadegau'n dangos i ni bod dros chwarter miliwn o bobl yng Nghymru yn byw heb un teclyn cartref hanfodol ar hyn o bryd, fel oergell a pheiriant golchi, a bod llawer hefyd yn byw gydag eitemau diffygiol neu sydd wedi torri. Mae graddfa ac effaith tlodi teclynnau yn ddifrifol ac nid yw'n cael ei drafod ddigon. Gall rhan o'r ateb i'r problemau hyn fod mewn "meddwl cydgysylltiedig" lle mae'r opsiynau i ailddefnyddio, trwsio a benthyg yn cael eu hyrwyddo, gan amlygu'r ffordd y gall ymddygiad cylchol ddod yn norm yn gynyddol.

## Mynediad at gerbydau

Mae aelwydydd incwm isel a myfyrwyr yn llai tebygol o fod â mynediad at gerbyd er mwyn ymweld â'r HWRC lleol gan gyfyngu eu hopsiynau ar gyfer gwaredu a chynyddu'r tebygolrwydd o orfod defnyddio gwasanaeth y codir tâl amdano. Pan fydd faniau wedi eu llogi'n cael eu hatal rhag defnyddio HWRC, mae opsiwn pellach yn cael ei ddileu ar gyfer y rheiny nad ydynt yn berchen ar gar.

# Rhwystrau cymdeithasol sydd yn cyfrannu at dipio anghyfreithlon

Mae rhwystrau cymdeithasol yn ymwneud â'r ddealltwriaeth a'r gwerthoedd sydd gan aelodau'r cyhoedd. Mae'n cynnwys rhai o'r credoau a'r amgyffrediadau eang (p'un ai'n wir neu ddim yn wir) yn ymwneud â gwastraff a gwaredu gwastraff, yn cynnwys pethau y gellir eu parhau ar lafar, ar y cyfryngau a hyd yn oed yr iaith a ddefnyddir.

Mae newid ymddygiad yn dibynnu ar ei wneud yn hawdd ac yn gyfleus i wneud y peth iawn. Mae cyfathrebu negeseuon clir a rhesymol (o safbwynt deiliaid tai) yn gynhenid i gyflawni hyn.

Ceir sawl ardal lle mae tystiolaeth bod deiliaid tai a) wedi eu drysu ar hyn o bryd gan reolau ac yn cael eu nodi'n anghymesur fel drwgweithredwyr posibl neu b) yn ymddwyn mewn ffordd nad ydynt o reidrwydd yn weithredoedd bwriadol o dipio anghyfreithlon

Enghreifftiau o a) yw'r profiad cyffredin o fynediad i HWRC yn cael ei wrthod (yn arbennig ar sail y math o gerbyd) ac o b) yw'r defnydd o finiau cyhoeddus a'r ardaloedd o'u hamgylch ar gyfer gwaredu gwastraff domestig pan fydd casgliadau'n cael eu colli, neu wastraff gormodol wedi cynyddu.

Yn ei dro, er ei fod yn bwysig bod aelwydydd yn deall bod ganddynt ddyletswydd gyffredinol i waredu eu gwastraff gyda chludwr gwastraff cofrestredig, mae eu diogelu rhag masnachwyr twyllodrus yr un mor bwysig.

Mae'r atebion i'r rhwystrau cymdeithasol hyn wedi eu rhyngblethu â'r materion strwythurol ac economaidd sydd eisoes wedi cael eu trafod ond mae cyfleoedd hefyd ar gyfer polisïau sydd, er enghraifft:

- yn symleiddio ac yn cyfathrebu canllawiau ar gael mynediad i HWRC yn well;
- yn defnyddio ymagwedd fwy strategol tuag at fathau a lleoliad biniau cyhoeddus a ddefnyddir a'r negeseuon sy'n cael eu harddangos gyda nhw.

Gall y term tipio anghyfreithlon ei hyn gyfrannu at y bwlch cyfathrebu hefyd. Er bod tipio anghyfreithlon yn derm cyffredinol defnyddiol a ddefnyddir gan gyrff sydd yn ymdrin â gwastraff a throseddau gwastraff i ddisgrifio'r amrywiaeth o ddigwyddiadau (h.y. bagiau du gerllaw biniau ac mewn cilfannau, nwyddau gwyn sydd wedi eu gadael ar strydoedd a lonydd gwledig, gollwng ar raddfa fawr yng nghefn gwlad), nid yw'r term yn cysylltu'n dda â'r ffordd y gall llawer o bobl siarad am waredu a gall gynyddu'r perygl na fyddant yn ymateb i negeseuon "dim tipio anghyfreithlon".

Canfu ymchwil gan Cadwch Gymru'n Daclus mai dim ond 1% o'r rheiny a arolygwyd wnaeth adnabod pob digwyddiad o dipio anghyfreithlon yn gywir o sampl o ffotograffau[2]. Roeddent yn fwy tebygol o sylweddoli bod eitemau swmpus oedd wedi cael eu gadael ar y stryd yn golygu tipio anghyfreithlon ond yn anaml yr oeddent yn sylweddoli bod bagiau du gerllaw biniau sbwriel, pecynnau cardfwrdd gerllaw biniau ailgylchu a bagiau du gerllaw biniau cartref yn dipio anghyfreithlon hefyd.

Dylai unrhyw ymgyrch tipio anghyfreithlon ystyried y cymunedau y maent yn ceisio mynd i'r afael â nhw a'r rhwystrau diwylliannol a ieithyddol a allai fodoli ac a allai fod angen cyfathrebu yn yr iaith gyntaf, tra'n bod yn ystyriol o beidio 'pwyntio bys' yn uniongyrchol at unrhyw gymunedau lleiafrifol yn benodol.

[2] Keep Britain Tidy *Understanding and Tackling Fly-tipping in London*, 2017, Ar gael: https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resource/Understanding-and-Tackling-Fly-Tipping-in-London-Final-Report.pdf

# Adran 2 – Canfod atebion yn ôl math o ymyrraeth

Mae'r adran hon yn cyflwyno atebion i'r materion a drafodir yn adran 1 wedi eu trefnu yn ôl math o ateb

| Cyfathrebu a negeseuon | |
|---|---|
| **Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef** | **Atebion** |
| Casgliadau gwastraff cartref | - Gwasanaeth hysbysu awtomataidd y gall preswylwyr ymuno ag ef i gael negeseuon am ddiwrnodau casglu gwastraff.<br>- Hyblygrwydd ymatebion i gŵynion sydd yn gwrando ac yn ymateb i bryderon aelwydydd.<br>- Strategaethau'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o strategaethau gwastraff i fynd i'r afael â'r mythau a'r camdybiaethau pennaf. |
| Casglu eitemau swmpus | - Dylai cynghorau wella'r ffordd y maent yn defnyddio eu gwefannau a'u gwasanaethau cynghori i ddarparu gwybodaeth leol ac wedi ei diweddaru i breswylwyr am yr holl opsiynau gwaredu, yn cynnwys dolenni i'r gwefannau cenedlaethol / cronfeydd data i gymell ailddefnyddio a thrwsio. |
| Storfeydd biniau cymunol a HMO | - Mae angen cyfeirio cyfathrebiadau gyda phreswylwyr mewn HMO at unigolion yn hytrach na'r 'deiliad'.<br>- Mae angen annog landlordiaid preifat i roi'r wybodaeth gywir a chyfleusterau digonol i denantiaid HMO am gasgliadau ailgylchu / gwastraff a sut i waredu eitemau swmpus.<br>- Canllawiau ar gyfer landlordiaid preifat i wella cysondeb arfer gorau a gwybodaeth gywir am waredu gwastraff trwy rwydweithiau a fforymau presennol.<br>- Mae angen ystyried rheoliadau trwyddedu / cynllunio cyn caniatáu HMO (lle y bo'n bosibl).<br>- Gwneud i finiau a storfeydd biniau deimlo'n fwy diogel, yn fwy deinadol ac i edrych yn well yn esthetig, yn arbennig trwy gyflwyno tirlunio naturiol i'r dyluniad tra'n sicrhau nad yw'r ardal wedi ei chuddio o olwg y cyhoedd. |
| Masnachwyr anghyfreithlon | - Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i helpu preswylwyr i ddeall sut i gadw llygad am fasnachwyr anghyfreithlon a hysbysu yn eu cylch.<br>- Monitro Facebook Marketplace (a safleoedd eraill) am y rheiny sydd yn cynnig gwasanaeth mynd ag eitemau i ffwrdd. Potensial i gydweithio gyda'r Safonau Masnach. |
| Deall y term tipio anghyfreithlon ac iaith arall yn ymwneud â gwastraff | - Defnydd o iaith hawdd i'w deall wrth ddisgrifio gwastraff. Efallai nad "tipio anghyfreithlon" yw'r term gorau bob amser. Ystyriwch yr angen i gyfathrebu mewn ieithoedd priodol eraill ar gyfer pobl â sgiliau Cymraeg neu Saesneg cyfyngedig. |

| Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef | Atebion |
|---|---|
| Deall y term tipio anghyfreithlon ac iaith arall yn ymwneud â gwastraff | - Gall y defnydd o offer fel Funnelback gan gynghorau helpu i sicrhau y bydd pobl sydd yn chwilio gan ddefnyddio mynegiannau gwahanol yn cael eu cyfeirio at y wybodaeth gywir ar wefannau. |
| Targedau symud | - Ystyriwch ddefnyddio 1) tâp safle trosedd fel arfer safonol am 24-48 awr cyn symud y sbwriel a / neu 2) defnyddio negeseuon stensil paent sialc sydd yn cyfleu nad yw tipio anghyfreithlon yn diflannu a bod cost iddo. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan awdurdod yn Llundain ac mae bellach yn cael ei roi ar brawf mewn nifer o ardaloedd eraill yn y DU.<br>- Mae angen cwestiynu unrhyw ddangosyddion neu dargedau newydd ar gyfer tipio anghyfreithlon yn drwyadl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. |

| Addysg ac ymgysylltu cymunedol | |
|---|---|
| **Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef** | **Atebion** |
| Casgliadau gwastraff cartref | - Yn unol ag arfer gorau yng Nghymru, dylid olrhain pob cwyn yn ymwneud â gwastraff sydd wedi ei gyflwyno gan swyddog er mwyn nodi'r mater ar gyfer aelwydydd unigol. Dylai fod gan y swyddog y disgresiwn i ddarparu'r hyn sydd ei angen i fodloni anghenion y preswylydd yn dibynnu ar y mater a dylid ei olrhain. |
| Gorfodi | - Mae canllawiau presennol yn pwysleisio y dylid ymgysylltu a chyfathrebu. Yn wahanol i daflu sbwriel a gadael baw ci lle mae sawl dewis amgen a ddeellir yn bodoli (fel rhoi sbwriel yn y bin neu fynd ag ef gartref), nid yw'r opsiynau ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol wedi eu diffinio mor glir nac wedi eu deall mor eang. Awgrymir uchod y gall tipio anghyfreithlon ddigwydd o ganlyniad uniongyrchol i fod eisiau osgoi gorfodi a chosbau mewn mannau eraill yn y broses gwaredu gwastraff. Ni fydd gosod dirwyon ar bob cam yn annog ymddygiad cywir ond gallai hyd yn oed waethygu'r broblem.<br>- Dylid ystyried adolygiad cenedlaethol o effeithlonrwydd gorfodi ar gyfer tipio anghyfreithlon (yn debyg i'r un a gynhelir gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer taflu sbwriel) fel rhan o Gynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ar gyfer Cymru. |
| Storfeydd biniau a HMO | - Cynorthwyo preswylwyr gyda'r ffordd y maent yn storio ac yn gwahanu gwastraff yn eu cartrefi – cynnig bagiau ailgylchu bach ar gyfer eu fflatiau / HMO i annog preswylwyr i wahanu eu hailgylchu cyn ei roi i mewn i'r biniau. Mae angen i'r ymarfer hwn gael ei wneud ar draws gwasanaethau tenantiaid ac adrannau eraill.<br>- Un o'r ceisiadau mwyaf llwyddiannus sydd wedi bod i gynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu yw ychwanegu elfennau chwarae gêm at y broses a chreu nodau i gymunedau / blociau tai eu cyrraedd a ffyrdd o fonitro cynnydd. Unwaith eto, byddai angen gwneud a monitro hyn yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. |

| Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef | Atebion |
|---|---|
| Casgliadau gwastraff swmpus | - Cydweithio rhwng cynghorau a chymdeithasau tai, landlordiaid preifat a chyrff sydd yn gweithio gyda phobl sydd â thebygolrwydd uwch o ganfod gwaredu eitemau swmpus yn broblematig (yn cynnwys sefydliadau cymorth i fyfyrwyr a thimau cymorth tai). |

| Adolygu polisïau a gwasanaethau awdurdodau | |
|---|---|
| **Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef** | **Atebion** |
| Casgliadau gwastraff | - Ailystyried effeithiolrwydd polisïau arbennig o gaeth yn ymwneud â chasgliadau ar garreg y drws, yn arbennig os yw cosbau neu wrthod casglu yn rhan arwyddocaol o gyfathrebiadau ac ymagwedd y Cyngor. (Noder nad ydym yn cyfeirio yma at amlder casgliadau, ond yn hytrach yr ymagwedd o ran ymgysylltu, cyfranogiad a chyfathrebu y mae polisïau gwastraff ategol a rheolau'r Cyngor yn arwydd ohonynt).<br>- Mae angen ystyried polisïau gwastraff ynghyd â staff gorfodi a thai mewn ymagwedd ar draws systemau sydd yn ystyried data demograffig yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i); lefelau amddifadedd, addysg a llythrennedd, HMO, teuluoedd â phlant bach, aelwydydd â gofalwyr, poblogaethau byrhoedlog. Gellir cyflawni hyn trwy gael strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ystyrlon yn ei lle a chynnal asesiadau effaith EDI ar draws meysydd polisi perthnasol a'u cymhwyso i benderfyniadau'r cyngor.<br>- Mae systemau adrodd ar systemau colli casgliadau fel arfer mewn safle da ar apiau a gwefannau awdurdodau lleol. Os yw aelwyd yn nodi casgliad a gollwyd o fewn 24 awr, dylai'r awdurdodau geisio ei ddatrys o fewn 24 awr lle y bo'n bosibl. Mae technoleg 'yn y cab' wedi cael ei defnyddio'n effeithiol a gall arbed amser a chostau.<br>- Er nad yw opsiynau ailgylchu cewynnau yn eang eto, mae gwasanaethau casglu cewynnau yn wasanaeth hanfodol y dylai pob awdurdod lleol fod yn ei ddarparu i'r rheiny sydd ei angen. Dylai hyn fod yn ogystal â hyrwyddo cewynnau amldro. Mae angen hyrwyddo'r ddau yn gyson ac yn aml trwy sianeli wedi eu nodi ymlaen llaw fel meddygon teulu, grwpiau gofal yn y cartref, wardiau mamolaeth a grwpiau'r cyfryngau cymdeithasol a busnesau gofal plant lleol.<br>- Bydd mwy o gasglu deunyddiau ar garreg y drws yn cynyddu ailgylchu ac yn cipio amrywiaeth ehangach o ddeunydd gwastraff. |

| Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef | Atebion |
|---|---|
| Mynediad i HWRC | - Mae HWRC yn chwarae rôl hanfodol yn seilwaith gwastraff am mai nhw yw'r unig gyrchfan amgen ar gyfer gwastraff cartref gormodol os na ellir ei ailddefnyddio ac felly mae angen eu gwneud yn hawdd ac yn gyfleus. Mae angen cryfhau eu rôl yn mynd i'r afael â gwastraff a throseddau gwastraff ym mhob awdurdod lleol a dylid ystyried y rhwystrau rhag cael mynediad at y safleoedd hyn ym mhob awdurdod lleol e.e. trwyddedau, mathau o gerbydau. Gallai awgrym i adolygu a oes angen yr holl rwystrau ym mhob safle, neu a allai rhywfaint o hyblygrwydd gael ei gyflwyno.<br>- Bydd safoni rheolau ar draws HWRC, yn arbennig yn ymwneud â mathau o gerbydau, gyda'r nod o leihau'r ofn / pryderon ynghylch cael mynediad i'r safleoedd hyn, symleiddio prosesau ac osgoi cyfyngiadau diangen i leihau unrhyw 'faich ymdrech' ychwanegol o ran defnyddio HWRC yn cynyddu cyfranogiad, defnydd ac ailgylchu deunyddiau.<br>- Dylid caniatáu mynediad i HWRC waeth beth yw math y car ar gyfer gwaredu gwastraff domestig.<br>- Opsiwn i drwyddedau gael eu cyhoeddi ym mhob HWRC yn y fan a'r lle os oes angen ar gyfer cerbydau mawr domestig (er enghraifft faniau wedi eu llogi).<br>- Archwilio buddion cost casglu gwastraff swmpus am ddim neu wasanaeth casglu symudol wedi ei anelu at fannau problemus lle mae perchnogaeth trafnidiaeth yn isel ac achosion o dipio anghyfreithlon yn uchel.<br>- Adolygu'r cyngor a'r defnydd o amnestau sgip (darparu sgip ar gyfer gwastraff gormodol mewn ardal benodol).<br>- Adolygu safleoedd gwastraff a'i wneud yn haws i aelwydydd ddefnyddio safleoedd gwastraff sydd agosaf atynt hyd yn oed os yw y tu allan i'w hawdurdod lleol.<br>- Mae sefydlu 'Siop Tip' yn rheswm ychwanegol dros ymweld â HWRC, mae sawl cyfle creu refeniw o'r ymdrechion hyn yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer cefnogi sgiliau a hyfforddiant. |
| Casglu eitemau swmpus | - Archwilio buddion cost casglu gwastraff swmpus am ddim neu gasgliad gwasanaeth symudol wedi ei anelu at fannau problemus lle mae perchnogaeth cerbydau yn isel.<br>- Ystyried cyflwyno gwasanaeth isafswm am ddim ym mhob awdurdod lleol, er enghraifft tair eitem am ddim y flwyddyn. |
| Pwysau gwleidyddol | - Gallai strategaeth wastraff neu sbwriel a thipio anghyfreithlon gryno awdurdod lleol nodi'r dylanwadau ar dipio anghyfreithlon a darparu cynllun ar gyfer ymagwedd hirdymor ar gyfer y broblem y gallai cynghorwyr, yn eu tro, ei defnyddio i ymateb i gŵynion etholwyr am dipio anghyfreithlon.<br>- Dylai hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r cabinet gael ei gyflwyno bob tymor er mwyn osgoi polisïau adweithiol a gorddibyniaeth ar orfodi. |

| Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef | Atebion |
|---|---|
| Targedau lleihau a symud gwastraff | - Cynyddu hyblygrwydd neu dargedau symud mewn ardaloedd problemus ac adolygu ymarfer er mwyn i swyddogion allu ymateb mewn ffordd sydd yn cyd-fynd â'r cyd-destun a'r sefyllfa.<br>- Sicrhau bod gan wasanaethau stryd a'r timau gorfodi yr un targedau ar gyfer symud ac ymchwilio.<br>- Gall targedau lleihau gwastraff (a chostau gwaredu) ddatgymell symud eitemau (yn arbennig ar dir preifat).<br>- Gall ôl-ddidoli tipio anghyfreithlon gynyddu ailgylchu hefyd. |
| Gorfodi | - Mae angen targedu gorfodi o ran tipio anghyfreithlon yn gadarn tuag at ardaloedd penodol gan fod y gred bresennol o ran cael eich dal yn isel iawn am y drosedd hon. Mae'r diffyg adnoddau sydd ar gael i awdurdodau sefydlu presenoldeb gweladwy yn golygu bod targedu hyperleol yn debygol o fod yn fwy effeithiol. Bydd casglu data yn effeithiol ac yn gyson yn cefnogi ymagwedd wedi ei harwain gan wybodaeth. |
| Storfeydd biniau cymunedol a HMO | - Darparu mwy o ganllawiau dylunio cynlluniau ar gyfer ardaloedd biniau cymunol trwy, er enghraifft, Siarter Creu Lleoedd Cymru er mwyn sicrhau bod cyfleusterau gwastraff/sbwriel yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn defnyddio'r gofod mewn gwirionedd.<br>- Cynnwys amodau mewn Canllawiau Cynllunio Ategol a chynlluniau trwyddedu ychwanegol HMO ar gyfleusterau ailgylchu a gwastraff digonol. |
| Tai | - Gall timau gwastraff ac ailgylchu gael budd o gyswllt â swyddogion tai a chynllunio yn yr awdurdod lleol o ran deall ble gallai'r materion hyn fod yn berthnasol.<br>- Canllawiau a gwybodaeth benodol yn targedu ardaloedd lle mae tai â phroblemau gwastraff penodol. Blaenoriaethu adnoddau ar gyfer lleoliadau sy'n wynebu mwy o anawsterau yn ymdrin â gwastraff ac ailgylchu. |
| Opsiynau ar gyfer ailddefnyddio/atgyweirio/benthyg | - Ystyriaeth o gynnig casgliad am ddim ar gyfer nifer fach o eitemau bob blwyddyn. Gallai dadansoddiad o fudd gymharu cost hyn yn erbyn costau lefelau tipio anghyfreithlon.<br>- Gallai llwybrau ar gyfer aelwydydd a sefydliadau i'w cynorthwyo i gael cymorth gyda chostau symud gwastraff swmpus lle mae caledi ariannol yn rhwystr gael eu nodi a chael cyhoeddusrwydd.<br>- Gweithgareddau trwsio ac ailddefnyddio i gael eu cynnwys mewn trafodaethau'n ymwneud ag addysg ariannol, gweithio gyda Chyrff Anllywodraethol (NGO), undebau credyd, banciau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) i hyrwyddo opsiynau ailddefnyddio, trwsio, benthyg a rhentu gwahanol.<br>- Canolbwyntio ar ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata ar gyfer mentrau trwsio o amgylch sefydliadau lleol fel ysgolion, busnesau blaenllaw, papurau newydd lleol.<br>- Cyflwyno prentisiaethau trwsio mewn sefydliadau angori (fel colegau a chymdeithasau tai) sydd eisoes yn ymgysylltu â chrefftau a sgiliau perthnasol. |

| Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef | Atebion |
|---|---|
| Systemau codi tâl a thrwyddedau – HWRC | - Canllawiau syml a safonol ar gyfer mynediad i HWRC, ar-lein ac wrth fynedfeydd safleoedd.<br>- Dileu taliadau am unrhyw wastraff domestig a / neu gerbydau domestig (hyd at ac yn cynnwys faniau bach a cherbydau cludo criw sydd heb eu cofrestru ar gyfer defnydd busnes).<br>- Dileu gofynion trwyddedau ar gyfer faniau sydd wedi eu llogi a / neu'r gallu i brynu trwyddedau dros dro wrth fynd i mewn.<br>- Symleiddio systemau trwyddedau a therfynau uchaf ar y tâl. |
| Defnydd o finiau cyhoeddus | - Ni ddylai gwaredu gwastraff mewn / gerllaw biniau a gwastraff ar yr ochr sydd wedi ei gyflwyno'n anghywir gael ei gyfrif fel tipio anghyfreithlon ond dylai fod yn rhan o strategaethau ac archwiliadau biniau awdurdodau lleol. Mae angen canllawiau ychwanegol. |

| Seilwaith ac ymyriadau ffisegol | |
|---|---|
| **Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef** | **Atebion** |
| Storfeydd biniau cymunol a HMO | - Adolygu'r mathau o finiau mewn ardaloedd lle mae problem a datblygu canllawiau dylunio ar gyfer cyfleusterau cymunol sydd yn cynnwys hwylustod, hygyrchedd, gweledededd, diogelwch ac estheteg. |
| Defnydd o finiau cyhoeddus | - Seilwaith biniau h.y. gellir defnyddio math a lleoliad biniau cyhoeddus a'r negeseuon sydd yn cael eu harddangos yn ardal y bin i annog peidio â thipio'n anghyfreithlon. (Gweler Canllawiau Seilwaith Biniau Cadwch Gymru'n Daclus.)<br>- Datblygiad negeseuon clir ar finiau sy'n defnyddio iaith glir a delweddau perthnasol o'r math o eitemau annerbyniol er mwyn egluro na chaniateir gadael bagiau gwastraf ac eitemau eraill gerllaw'r bin.<br>- Profi marciau ar y ddaear gerllaw biniau.<br>- Ystyried symud biniau o gilfannau gan fod rhywfaint o dystiolaeth mewn rhai cyd-destunau bod y rhain yn cynyddu tipio anghyfreithlon. Er dylid nodi y gallai symud biniau symud y mater i leoliad arall sydd yn fwy anodd ei reoli / ei waredu.<br>- Ystyried cyflwr a'r argraff y mae biniau cyhoeddus yn ei chreu, pan fydd y rhain yn rhoi delwedd o esgeulustod gallent gynyddu achosion o dipio anghyfreithlon. |

| Polisïau a mentrau cenedlaethol | |
|---|---|
| **Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef** | **Atebion** |
| Casglu eitemau swmpus | - Cronfa ddata sydd yn hawdd ei chwilio o elusennau a sefydliadau Cymru sydd yn gallu helpu gyda chasglu (gan ddatblygu'r math o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar Cymru yn Ailgylchu (https://walesrecycles.org.uk/) i gynnwys gwybodaeth am y radiws sydd wedi ei gynnwys a'r mathau o eitemau sydd yn cael eu derbyn.<br>- Mae enghreifftiau rhanbarthol yn bodoli ond mae angen mwy trwy gynghorau i'w hyrwyddo fel opsiwn 'safonol' i hyrwyddo eu defnydd i breswylwyr lleol ar draws Cymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys: Cyfeiriadur trwsio wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gael ar gyfer Canolbarth a De Cymru yn Effeithlonrwydd Atgyweirio Cymru).<br>- Yn yr un modd, ar gyfer De Ddwyrain Cymru mae gwefan (Used furniture Newport (wastesavers.co.uk)) yn dangos y siopau ailddefnyddio amrywiol ar draws yr ardal hon o Gymru. |
| Gorfodi | - Adolygu gorfodi ar gyfer tipio anghyfreithlon i fynd i'r afael â hyfforddiant, ynadon, rheoliadau, data a systemau swyddfa gefn a dirwyon.<br>- Gwaith pellach i sefydlu buddion cyflwyno cwrs ymwybyddiaeth tipio anghyfreithlon fel dewis amgen i ddirwyon a / neu gellir ei gyflwyno ymhellach wrth roi dedfryd llys. |
| Masnachwyr anghyfreithlon | - Cryfhau rheoliadau i fynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus. Ei wneud yn anghyfreithlon i unrhyw un hysbysebu gwasanaethau heb drwydded awdurdodedig. Cynyddu'r pwyslais ar gost i fasnachwyr, yn hytrach na'r pwyslais presennol ar aelwydydd. |

| Landlordiaid a thai | |
|---|---|
| **Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef** | **Atebion** |
| Casglu eitemau swmpus | - Awdurdodau lleol yn cydweithio â chymdeithasau tai, landlordiaid preifat a chyrff sydd yn gweithio gyda phobl â thebygolrwydd uwch o ganfod gwaredu eitemau swmpus yn broblem (yn cynnwys sefydliadau cymorth i fyfyrwyr a thimau cymorth tai). Gallai hyn helpu i gael gwybodaeth i aelwydydd ar yr adeg iawn a hefyd i nodi bylchau mewn gwasanaethau gwastraff swmpus presennol. |
| Storfeydd biniau cymunol a HMO | - Dylai cyfathrebu gyda phreswylwyr mewn HMO ystyried nad yw pob preswylydd, efallai, yn ystyried eu hunain yn rhan o'r aelwyd ac efallai nad ydynt yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Mae angen mynd i'r afael â chyfathrebu gydag unigolion yn hytrach na'r "deiliad". |

| Y mater y mae'r rhwystr yn ymwneud ag ef | Atebion |
|---|---|
| Storfeydd biniau cymunol a HMO | - Mae angen annog landlordiaid preifat i roi gwybodaeth gywir a chyfleusterau digonol i denantiaid HMO am gasgliadau ailgylchu / gwastraff a sut i waredu eitemau swmpus. Mae potensial ar gyfer cynnwys hyn mewn cytundebau tenantiaeth a chael cymorth trefniadau trwyddedu ychwanegol HMO. Gall landlordiaid gael cymorth gyda'r adnoddau cywir i wneud hyn.<br>- Gwneud biniau a storfeydd biniau yn fwy deniadol a dymunol yn esthetig, yn arbennig trwy gyflwyno agweddau natur (er enghraifft blodau, adar a dail) i'r dyluniad sydd wedi dangos gostyngiad mewn camddefnydd yn yr ardaloedd hyn. Mae'r dechneg yma o roi hwb yn ymyrraeth cost isel ond bydd angen ei chynnal er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn aros yn ffres ac yn lân. |
| Tai | - Amlygu cyfrifoldeb y landlord preifat i drefnu biniau ychwanegol neu wastraff ychwanegol os yw'r eiddo yn gyfyngedig o ran gofod (gallai hyn gael ei gynnwys yn amodau trwyddedu'r HMO). |
| Mynediad at gerbyd | - Ymgysylltu prifysgolion a landlordiaid preifat i roi mwy o wybodaeth a dealltwriaeth i fyfyrwyr o opsiynau ar gyfer gwaredu eitemau diangen. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am elusennau a mentrau cymdeithasol sydd yn cynnig casglu rhai eitemau am ddim.<br>- Gallai landlordiaid cymdeithasol gael polisïau cyfeiriedig i helpu teuluoedd ar incwm isel gyda chostau symud gwastraff a gellid hyd yn oed eu targedu'n benodol i ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae dim mynediad at gerbyd yn arbennig o uchel.<br>- Gallai mentrau cymdeithasol, sydd yn aml yn weithredol yn barod yn y maes hwn, gael eu cynorthwyo i gynyddu eu gwasanaethau i dargedu'r anawsterau penodol y gallai aelwydydd incwm isel sydd heb unrhyw fynediad at gerbyd fod yn eu hwynebu o ran gwaredu gwastraff. |

caru cymru

Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales